**CANOLFAN CYMRAEG I OEDOLION GOGLEDD CYMRU**
**WELSH FOR ADULTS CENTRE NORTH WALES**

**Grŵp Strategol / Strategy Group**

---

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Grŵp ddydd Iau, Gorffennaf 12 am 3.00yp yng Ngholeg Iâl, Wrecsam.

Presennol: Steve Smith (Coleg Iâl - Cadeirydd); Haydn Hughes (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Jina Gwyrfai (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Pam Evans-Hughes (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Andrew Parry (NEWI); Janice Lewis (Coleg Menai); Myfi Brier (Coleg Llysfasi); Fred Cunningham (Coleg Llysfasi); Dr Ian Rees (Coleg Meirion Dwyfor); Huw Evans (Coleg Llandrillo Cymru); Paul Croke (Coleg Iâl); Verona Pritchard Jones (Popeth Cymraeg); Ioan Talfryn (Popeth Cymraeg); Richard Lewis (Coleg Garddwriaeth Cymru); Ifor Gruffydd (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Iwan Davies (Ysgrifennydd)

Ymddiheuriadau: Meri Huws (Prifysgol Cymru, Bangor); Elwyn Hughes (Prifysgol Cymru, Bangor); David Jones (Coleg Glannau Dyfrdwy); Trefor Fôn Owen (Coleg Harlech/WEA); Jim O'Rourke (Nant Gwrtheyrn)

**Gweithredu**

## 1. CROESO A RHAGARWEINIAD

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Steve Smith, Coleg Iâl Wrecsam a oedd yn y Gadair yn absenoldeb Meri Huws.

## 2. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 25 MAI 2007

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mai 2007 yn gywir.

## 3. MATERION YN CODI

Mynegodd IG am y cynllun peilot ESOL – ansicr ar y ffordd ymlaen ond byddwn yn parhau ymlaen efo'r cwrs Cymraeg ESOL.

## 4. ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR

- Cafwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr mynegodd y bydd tanwariant am y flwyddyn 2006/07, bellach mae dyraniadau pob darparwr wedi eu cadarnhau, mae 10% o ychwanegiad o 2005/06, bydd y Ganolfan yn monitro'r

gwariant. Mae Meri Huws wedi ysgrifennu at Steve Marshall ynglŷn â'r diffyg sylweddol.

- Bellach mae'r Ganolfan wedi derbyn mewnbwn cyfreithiol a bydd cytundebau yn cael eu hanfon at y darparwyr 16eg Gorffennaf 2007 a gofynnir i ***bob darparwr eu dychwelyd erbyn 31ain Gorffennaf 2007.*** **Darparwyr**
- Gweithgor Ymchwil - mae'r pwyslais ar lunio strategaeth genedlaethol, bydd y gweithgor yn tendro am gytundeb £20k gan APADGOS i gynnal ymchwil i faes cymhathu dysgwyr.
- Cymeradwywyd papur y Gweithgor Cwricwlwm Dwys gan Grŵp Llywio Cenedlaethol, bydd APADGOS yn gwahodd tendrau i lunio cwrs cenedlaethol newydd ar bob lefel.

## 5. RHEOLI ANSAWDD

Mynegodd HH bydd y Ganolfan yn peilota cynllun yn Nwyrain y rhanbarth a'r gobaith y bydd hyn yn cael ei ymestyn i weddill y rhanbarth yn 2008/09. Cafwyd cyfarfod adeiladol efo Coleg Menai a Choleg Meirion Dwyfor i drafod ansawdd. Byddwn yn cydweithio efo Canolfan y Canolbarth efo'r cynllun arsylwi fel y bydd y system yn cyd-weddu ac yn debyg.

## 6. HYFFORDDIANT

- Mynegwyd pryder gan y darparwyr ar y taliadau a wnaethpwyd i diwtoriaid, mae gwahaniaeth sylweddol yn nhaliadau tiwtoriaid ar draws y Canolfannau, cytunwyd y byddwn yn talu £50.00 y dydd am fynychu sesiwn hyfforddi, £30.00 am ½ diwrnod .
- Mae Prifysgol Caerdydd yn cydweithio efo LLUK ar y cymhwyster a fydd yn cyfateb i gymhwyster TAR ond oherwydd natur newid cymhwyster TAR bydd hyn yn gohirio dechrau'r cymhwyster tan Ionawr 2008.

## 7. DARPARIAETH 2007/08

- Mynegodd JG bod hyn yn gyfnod cyffrous iawn efo'r darparwyr, bydd angen cydweithio efo'r darparwyr, marchnata a hybu cyrsiau a rhwydweithio efo mudiadau eraill o fewn y rhanbarth. Bydd y Ganolfan yn datblygu a threialu syniadau newydd. Mae nifer o fylchau yn y ddarpariaeth gyda llai o fyfyrwyr ond bod cyrsiau sylfaen ar gynnydd. Mae Estyn yn galw am raglen gytbwys, bydd angen cynllunio i gael rhaglen gynhwysfawr.
- Cafwyd sesiynau ar gyfer mewnfudwyr a dosbarthiadau meithrin i rieni.
- Bydd prosiectau newydd Cymraeg i'r Teulu a'r Gweithle, cynllun peilot i hwyr ddyfodiaid yn yr ysgolion uwchradd, cydweithio efo TWF a MYM.
- Bydd angen cefnogaeth gan y darparwyr yn y dyfodol efo dysgu cyfnod sylfaen gan fod rhai ardaloedd wedi dangos

diddordeb yn ardal Wrecsam.

- Mae'r Ganolfan yn cydweithio efo RhCA ac yn sicrhau y bydd credydau yn cael eu cynnig am y cyrsiau hyn.

## 8. U.F.A.

Penderfynwyd apwyntio Dirprwy Gadeirydd, os bydd y Cadeirydd yn absennol. Penderfynwyd gofyn i Bennaeth y Coleg lle cynhelir y cyfarfod gadeirio ac roedd pawb yn gytûn efo hyn.

## 9. DYDDIADAU CYFARFODYDD 2007/08

Dydd Mercher, 24ain Hydref 2007 am 10.30yb, Coleg Llysfasi, Rhuthun
Dydd Mercher, 16eg Ionawr 2008 am 10.30yb, Coleg Glannau Dyfrdwy, Cei Conna
Dydd Mercher, 9fed Ebrill 2008 am 10.30yb, Prifysgol Bangor
Dydd Mercher, 9fed Gorffennaf 2008 am 10.30yb, Coleg Menai, Bangor.